**(HCC 625)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 6 Mawrth 2015**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Prys Morgan, Graham Probert, Richard Rogers, Glyn Roberts, Wyn Williams a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Mark Alexander a Daniel Thomas, Llywodraeth Cymru

**Tîm Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Alan Morris (Rheolwr Cyfathrebu)
Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad llafar am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Ionawr 2015*

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn Nerbyniad Blwyddyn Newydd y Comisiwn Ewropeaidd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â'r Dirprwy Weinidog er mwyn rhoi'r diweddaraf am weithgareddau HCC a thrafod materion cyfredol y diwydiant.

Bu'r Cadeirydd mewn cinio ar wahoddiad Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod o'r Grŵp Ardoll Cig Coch (gweler eitem 9).

*Chwefror 2015*

Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli HCC yng Nghynhadledd yr NFU yn Birmingham lle cyfeiriwyd at lwyddiant Cig Oen Cymru yn Ewrop a'r Dwyrain Canol.

*Mawrth 2015*

Teithiodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i Frwsel i gyfarfod â swyddogion y Comisiwn ac i fynychu derbyniad Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru ar wahoddiad Jane Hutt, AC, Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Richard Tudor (Bwrdd HCC) a Gary Haggaty, Helen Minnice-Smith a David Morris (Llywodraeth Cymru).

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd - John Brereton a Wyn Williams.
Papur HCC 618 – Prys Morgan a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 16 Ionawr 2015 (HCC 613)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 16 Ionawr 2015 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Y Ganolfan Amaeth-Dechnoleg ar gyfer Arloesedd a Rhagoriaeth mewn Da Byw (CIEL)*

Nid oedd diweddariad i'w roi. Fodd bynnag, roedd Cyd-Bwyllgor Y&D y Byrddau Ardoll i fod i gyfarfod ar 12 Mawrth 2015 i drafod hyn ymhellach. Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

*Yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Hollti Carcasau Cig Oen*

Roedd y Prif Weithredwr wedi codi'r mater yn ystod cyfarfod diweddar â Chyfarwyddwr Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, Nina Purcell.

Nodwyd y byddai newid i ddeddfwriaeth TSE (Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy) i ganiatáu dulliau eraill o dynnu llinyn y cefn (yn amodol ar ddefnyddio dulliau effeithiol, diogel a chymeradwy gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd) yn cael ei gynnig mewn ymarfer ad-drefnu dan arweiniad Defra.

Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn barod i ystyried dulliau eraill â'r diwydiant er mwyn cael hyd i ffordd briodol o bennu oedran defaid. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw argymhelliad gan y diwydiant fod o leiaf mor gadarn â'r system bresennol mewn perthynas â rheoli hollti'r carcasau sy'n mynd i mewn i'r gadwyn fwyd.

Roedd y broses yn parhau.

*Penodi Aelodau Bwrdd HCC*

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Bwrdd am y cynnydd a wnaed gyda'r broses o benodi aelodau i Fwrdd HCC. Roedd y Gweinidog Adnoddau Naturiol (Carl Sergant AC) ar hyn o bryd yn adolygu pob penodiad i'r Byrddau Penodiadau Cyhoeddus). Byddai'r Bwrdd yn cael ei hysbysu am ddatblygiadau.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 614)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Porc*

Nodwyd bod HCC ar hyn o bryd wrthi'n datblygu gwefan ar gyfer gweithgareddau porc a fyddai'n targedu defnyddwyr, y sector gwestai, tai bwyta ac arlwyo (HoreCa) a mân-werthwyr. Cafodd y geiriad 'Porc' ei fabwysiadu'n fwriadol fel tacteg farchnata am nad oes statws PGI gan Borc Cymru ar hyn o bryd.

*Rheolaeth Carcasau ar gyfer Cig Eidion a Chig Oen*

Roedd y gwaith dichonoldeb mewn perthynas â'r uchod yn parhau a cheid adroddiad maes o law.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 615)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 616)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Rhagfyr 2014 (HCC 617)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol:-
Nodwyd bod yr incwm Ardoll yn llai na'r gyllideb hyd yma yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd roedd gwarged o £46,000, mewn cymhariaeth â £249,000 o ddiffyg wedi'i gyllidebu, oherwydd mwy o incwm a llai o wariant ardoll.

Yn ôl y rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn, roedd disgwyl i'r ardoll fod yn uwch na'r gyllideb. Roedd y gwariant yn agos i'r gyllideb, ac o'r herwydd roedd disgwyl gwarged o oddeutu £100,000.

7. **<u>I dderbyn cyflwyniad am werthusiad o ymgyrch hysbysebu Cig Eidion Cymru PGI 2014</u>**

Rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â'r uchod gan Reolwr Datblygu'r Diwydiant.

Roedd canlyniadau'r gwerthusiad yn dangos ei bod yn anodd, yng nghanol prysurdeb y cyfryngau, i gael sylw. O'r herwydd, gyda golwg ar gyllideb gyfyngedig, roedd rhaid integreiddio.

Roedd y sianeli cyfryngol yn newid ac roedd y defnydd ohonynt yn fwy tameidiog o lawer. Felly, yn ogystal â hysbysebu ar y teledu, roedd rhaid gwario arian sylweddol ar sianeli eraill.

Roedd mwy o dargedu ar gyfer teledu a'r cyfryngau digidol wedi gweithio'n dda wrth gynyddu ymwybyddiaeth brand mewn rhanbarthau allweddol.

Roedd hysbysebu yn y cyfryngau cymdeithasol wedi gwella ymwybyddiaeth.

8. **<u>Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill 2015 / 2016</u>**

Nodwyd bod Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill 2015 / 2016 wedi cael eu cytuno â Gweinidogion Cymru fel a ganlyn:-

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru (ar gyfer 2015/2016)** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm, y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi'i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi'i dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £0.83 | £0.63 | £0.20 |
| **Gwartheg** | £5.67 | £4.34 | £1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £0.17 | £0.085 | £0.085 |
| **Moch** | £1.30 | £1.05 | £0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2015/2016** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

9. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Roedd yr Is-grŵp Ardoll Cig Coch (Prif Weithredwyr AHDB, HCC, LMCNI a QMS) wedi cyfarfod ar 26 Chwefror 2015.

I grynhoi, buwyd yn trafod bwrw ymlaen â dulliau o rannu'r Ardoll ar gyfer defaid a moch, cyfraddau Ardoll gwahanol a chydweithio. Trafodwyd methodoleg ar gyfer gwartheg mewn cyfarfod cynharach.

Roedd egwyddorion rhannu'r Ardoll yn seiliedig ar rannau'r cynhyrchydd a'r prosesydd o'r Ardoll:-

- Câi Ardoll y prosesydd ei chasglu a'i hawlio gan y corff Ardoll yn ardal ddaearyddol y lladd-dy
- Câi Ardoll y cynhyrchydd ei rhannu rhwng y cyrff Ardoll yn seiliedig ar lle'r oedd yr anifeiliaid wedi treulio'u hoes.

Roedd y gwaith yn parhau ac roedd cyfarfod nesaf y Grŵp Ardoll Cig Coch llawn i fod i gael ei gynnal ar 18 Mai 2015.

10. **I dderbyn papur ynglŷn â'r dull o ladd a sut y gallai ddylanwadu ar enw da brandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI (HCC 618)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac y byddai llygad yn cael ei gadw ar y sefyllfa.

11. **Cynllun Busnes HCC 2015/2016**

a. I gymeradwyo'r crynodeb o newidiadau i Gynllun Busnes drafft HCC 2015 / 2016 sy'n codi o gyfarfod y Bwrdd ar 16 Ionawr 2015 (HCC 619)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Cafodd Cynllun Busnes 2015 / 2016 ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a nodwyd o'r cyfarfod blaenorol.

b. I gymeradwyo Cynllun Busnes HCC ar gyfer 2015/2016 (HCC 620)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Yn amodol ar y mân newidiadau a nodwyd, cafodd Cynllun Busnes HCC ar gyfer 2015 / 2016 ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

12. **I ystyried drafft o Gynllun Corfforaethol HCC 2015 / 2016 (HCC 621)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

13. **<u>I dderbyn diweddariad llafar o ddatblygiad y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru 2015 – 2020</u>**

Cafodd y Cynllun drafft ei ddiweddaru a châi ei gyflwyno i'r diwydiant am wyth wythnos o ymgynghori yn ystod yr wythnos yn cychwyn 9 Mawrth 2015. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 1 Mai 2015.

Câi ymatebion o'r ymgynghoriad eu hadolygu gan y Pwyllgor Gwaith ar ôl y dyddiad cau a châi unrhyw newidiadau i'r Cynllun drafft eu cyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer ystyriaeth yn y cyfarfod nesaf.

Wedyn byddai'r Cynllun drafft yn cael ei anfon at y Dirprwy Weinidog am gymeradwyaeth a bwriedid cael lansiad swyddogol yn ystod Mehefin / Gorffennaf 2015.

14. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ynghylch datblygu'r Rhaglen Cig Coch ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020</u>**

Nid oedd diweddariad i'w roi. Fodd bynnag, roedd deialog yn parhau â Llywodraeth Cymru a threfnwyd cyfarfodydd ar gyfer mis Mawrth 2015.

15. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ynghylch EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid</u>**

Nodwyd bod EIDCymru wedi cael ei sefydlu fel endid ar wahân, yn eiddo'n llwyr i HCC er mwyn darparu'r gwasanaeth a fyddai'n cefnogi cyflwyno'r gronfa ddata ar gyfer symud defaid ym mis Ionawr 2016 ac i gymell defnydd ohono.

Roedd recriwtio ar gyfer y ddwy swydd dechnegol gyntaf yn mynd rhagddo ac roedd disgwyl y byddai ymgysylltu â lladd-dai a marchnadoedd yn dechrau cyn bo hir.

Byddai'r Bwrdd yn cael cyflwyniad am EIDCymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

16. **<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>**

a. *<u>I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod yr Is-bwyllgor Archwilio a Rhgeoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Mawrth 2015</u>*

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

17. **<u>Y Pwyllgor Cynghori Y&D</u>**

*<u>I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 4 Mawrth 2015</u>*

Rhoddodd y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

18. **Papurau gwybodaeth:**

    a. *Ymlediad prisiau manwerth ar gyfer Cig Eidion, Cig Oen a Phorc 2012 - 2014 (HCC 623)*

    Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

    b. *Cynhyrchu a Lladd yn y DG 2014 (HCC 624)*

    Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

19. **Unrhyw fater arall**

    *Ymddiswyddiad Cyfarwyddwr Anweithredol HCC - Prys Morgan*

    Diolchodd y Cadeirydd i Prys Morgan am ei gyfraniad i'r Bwrdd a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd fel Pennaeth Gweithrediadau gyda HCC.

20. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

    Dydd Gwener 8 Mai 2015

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**